

# ADRODDIAD BLYNYDDOL HWB CARBON ZERO CYMRU

**Blwyddyn 1**

Mai 2024

CARBON HWB

**Awduron:**
Julian Brooks
Menna Lewis
Jessica Forster
Charlotte Hamilton
Kate Jenkins
Cerys Williams
Cat Griffiths Williams

## Cynnwys

**01** Cyflwyniad
**02** Allbynnau Digidol
**03** Ymgysylltu â Rhanddeiliaid
**10** Grwpiau Cynghori'r Diwydiant
**12** Cwrs Hyfforddi
**13** Digwyddiadau ac Ymgysylltiad Ehangach
**14** Rhagolwg o'r ddwy flynedd nesaf



# Cyflwyniad

Cafodd y gwaith o greu Hwb Carbon Zero Cymru ei dendro a'i gontractio gan Gymdeithas Tai ClwydAlyn gan ddefnyddio cyllid gan Lywodraeth Cymru yn 2022/23 i ddechrau ym Mai 2023 a chyllid am dair blynedd.

Nod y prosiect yw creu hwb rhannu gwybodaeth sy'n cysylltu'r diwydiant ac yn helpu i rannu a datgloi'r arbenigedd a'r profiad sydd eu hangen i gyrraedd targed Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau carbon o gartrefi presennol a newydd.

Yn fwy penodol, am y tair blynedd gyntaf, mae Hwb Carbon Zero Cymru yn cael ei sefydlu fel asiantaeth Cymru gyfan i helpu datblygwyr, landlordiaid cymdeithasol preswyl, cymdeithasau tai a pherchnogion i leihau faint o ynni a charbon sy'n cael ei greu wrth adeiladu a rhedeg cartrefi.

Bydd cenhadaeth Hwb yn cael ei chyflwyno dros dair blynedd i ddechrau, i gefnogi landlordiaid cymdeithasol ac awdurdodau lleol i ddefnyddio dyluniadau a thechnolegau carbon zero net yn eu cartrefi newydd a'u cartrefi presennol. Bydd yn ceisio cydlynu a dysgu gan brosiectau a mentrau arloesol presennol ledled gwledydd Prydain i ddarparu cyngor blaengar, a dod yn bwynt canolog ar gyfer rhannu gwybodaeth am ddylunio, adeiladu a pherfformiad tai yng Nghymru o ran zero net. Ymhen amser, bydd Hwb yn ceisio ehangu ei gefnogaeth i adeiladwyr a landlordiaid tai preifat sydd am symud tuag at gartrefi carbon zero net.

Mae'r Hwb yn cael ei ariannu drwy Lywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth grŵp llywio sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, ClwydAlyn, Cartrefi Cymunedol Cymru, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Caerdydd, Tai Pobl, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chomisiwn Dylunio Cymru.

**Mae partneriaid cyflawni Hwb yn cynnwys:**


Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, Cynghrair Cartrefi Da a TrustMark

energy saving trust

Good Homes Alliance

TRUSTMARK Government Endorsed Quality

**Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn crynhoi cyflawniadau a mewnwelediadau i'r diwydiant o safbwynt Hwb yn ei flwyddyn gyntaf ac yn rhoi rhagolwg o'r allbynnau dros y ddwy flynedd nesaf.**



# Allbynnau Digidol

Prif nod yr Hwb yw creu adnoddau ar-lein ar gyfer y sector tai cymdeithasol i'w gynorthwyo gyda'i daith tuag at zero net.

## Hyd yma, mae'r allbynnau'n cynnwys:

Creu gwefan Hwb Carbon Zero Cymru
zerocarbonhwb.cymru/cy/

Adnodd astudiaethau achos gan gynnwys ffurflenni cyflwyno ar-lein
zerocarbonhwb.cymru/cy/case-studies/

Map prosiect y Rhaglen Ôl-ffitio Optimeiddiedig (ORP) a'r Rhaglen Tai Arloesol (IHP)
zerocarbonhwb.cymru/cy/orp-and-ihp-project-map/

Sylfaen wybodaeth gan gynnwys manylion a dolenni i hybiau zero net eraill, llyfrgelloedd gwybodaeth, cynnyrch, cronfeydd data, safonau tai, ymchwil, adnoddau gwerthuso perfformiad adeiladau a chyllid gwyrdd
zerocarbonhwb.cymru/cy/knowledge-hwb/

Cyfeiriadur diwydiant gan gynnwys crefftau a gwasanaethau, cynhyrchion, cadwyni cyflenwi, contractau a chaffael, achredu ac ardystio
zerocarbonhwb.cymru/cy/industry-directory/

Tudalen rhestru digwyddiadau
zerocarbonhwb.cymru/cy/events/


Tudalen Grwpiau Cynghori'r Diwydiant
zerocarbonhwb.cymru/cy/industry-advisory-group/

E-fforymau
zerocarbonhwb.cymru/cy/forum/

Tudalen Newyddion
zerocarbonhwb.cymru/cy/news-updates/

Tudalen gyswllt a chofrestru ar gyfer cylchlythyr
zerocarbonhwb.cymru/cy/newsletter-sign-up/

Mae'r holl dudalennau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.



# Ymgysylltu â Rhanddeiliaid


Mae'r Hwb yn cysylltu â'r diwydiant yn barhaus i sicrhau bod yr hyn mae'n ei ddarparu yn gyfredol, yn berthnasol ac yn angenrheidiol. Yn ystod y flwyddyn gyntaf rydym wedi cynnal arolwg rhanddeiliaid ar-lein a chyfres o weithdai yn y digwyddiad lansio.

- Bydd angen i'r Hwb sicrhau bod ei allbynnau a'r hyn mae'n ei gyflawni yn uniongyrchol berthnasol ac yn ddefnyddiol i'r gadwyn gyflenwi, Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai. Er mwyn helpu gyda hyn, aeth yr Hwb ati i greu cyfres o holiaduron byr ar-lein ar gyfer y diwydiant ac mae'r canlyniadau wedi'u nodi isod.
- Dosbarthwyd yr arolygon ym mis Medi a mis Hydref 2023.

Mae prif ganlyniadau'r arolwg rhanddeiliaid ac ymatebion Hwb wedi'u crynhoi isod:

## Cwestiwn 1

**Pa bynciau ydych chi'n eu hystyried sydd bwysicaf i'r Hwb eu cyflwyno? n = 17**




### Ymateb Hwb:


Rydym wedi darparu dolenni i gronfeydd data chwiliadwy o wasanaethau a chontractwyr sydd wedi'u hachredu gan TrustMark a'r Cynllun Tystysgrifau Microgynhyrchu.

Mae gennym gyfres chwiliadwy o astudiaethau achos sy'n tyfu mewn maint.

Rydym wedi darparu e-fforwm ar-lein er mwyn cynnal trafodaeth rhwng gweithwyr proffesiynol y diwydiant.

## Cwestiwn 2

**Nod yr Hwb yw curadu gwersi a ddysgwyd ar draws amrywiol weithgarwch ledled Cymru. Dewiswch pa un fyddai'n werthfawr i chi. (n = 16)**





### Ymateb Hwb:

Bydd yr holl weithgarwch/themâu hyn yn cael eu cynnwys yn y rhaglen astudiaethau achos.


## Cwestiwn 3

**A fyddai eich sefydliad yn fodlon cyflwyno astudiaethau achos ar-lein (mewn templed sydd wedi'i fformatio ymlaen llaw)? (n = 16)**




## Cwestiwn 4

**Os gwnaethoch chi ateb "Byddai" i gyflwyno gwybodaeth astudiaethau achos, pa feysydd y byddech yn teimlo y gallwch gyfrannu a fyddai'n ddefnyddiol? (n = 8)**




## Cwestiwn 5

**A fyddai eich sefydliad yn fodlon rhannu data adeiladu gyda'r Hwb? (n = 16)**






## Ymateb Hwb i gwestiwn 3, 4 a 5:


Rydym yn casglu data astudiaethau achos yn barhaus.

Byddwn yn galw ar y diwydiant i hyrwyddo arferion gorau yn ein digwyddiadau amrywiol.

Mae'r e-fforwm ar gael i ledaenu'r neges a thrafod.

## Cwestiwn 6

**Ydych chi'n meddwl bod meincnodi gweithgarwch ôl-ffitio ac adeiladau newydd mewn tabl cynghrair: (n = 16)**





### Ymateb Hwb:

Byddwn ni'n parhau i adolygu hyn gyda'n rhanddeiliaid.

## Cwestiwn 7

**Bydd yr Hwb yn datblygu cwrs ar gyfer Arolygwyr Safle a Rheolwyr Prosiect gyda'r nod o uwchsgilio er mwyn gwella canlyniadau zero net mewn gwaith adeiladu. Ydych chi'n cytuno y dylai'r cwrs hwn fod: (n = 15)**





### Ymateb Hwb:

Bydd y cwrs yn cael ei gyflwyno drwy lwyfan e-ddysgu a thystysgrif yn cael ei rhoi ar ôl ei gwblhau

## Cwestiwn 8

**A ddylai'r cwrs ar gyfer Arolygwyr Safle a Rheolwyr Prosiect fod: (n = 16)**





### Ymateb Hwb:

Bydd y cwrs yn cael ei gyflwyno ar-lein drwy e-ddysgu a byddwn yn cysylltu â dysgwyr os bydd cyfleoedd i ymweld â safleoedd yn codi.


## Cwestiwn 9

**Rydym yn ceisio sefydlu Grwpiau Cynghori'r Diwydiant ar draws sawl sector: Awdurdodau lleol, Cadwyn Gyflenwi (gweithgynhyrchwyr a gwasanaethau), Cadwyn Gyflenwi (adeiladwyr tai a landlordiaid), Hyfforddiant, Polisi a Chyllid Gwyrdd. Dewiswch y datganiad sy'n gweddu orau i chi.**



## Cwestiwn 10

**Nodwch pa Grwpiau Cynghori'r Diwydiant fyddai'n ddefnyddiol i chi neu i'r sector yn gyffredinol: (n = 16)**





## Ymateb Hwb i gwestiwn 9 a 10:

Mae'r Hwb wedi creu pedwar Grŵp Cynghori'r Diwydiant.

Yr ail ddigwyddiad oedd y gweithdai a gynhaliwyd yn Nigwyddiad Lansio'r Hwb ar 24 Ebrill 2024.

## Roedd ein hail ddigwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rhan o'n Digwyddiad Lansio ym mis Ebrill 2024, lle cynhaliwyd pedair sesiwn grŵp gyda themâu i gyd-fynd â'n Grwpiau Cynghori'r Diwydiant. Canolbwyntiodd y trafodaethau ar y canlynol:



### Polisi

Daeth nifer o themâu allweddol i'r amlwg yn ystod y sesiwn. Roedd un maes trafod arwyddocaol yn canolbwyntio ar y cysyniad o zero net. Pwysleisiwyd bod diffiniad clir a chyson yn hanfodol, yn enwedig ar gyfer dealltwriaeth defnyddwyr. Teimlwyd hefyd bod angen i unrhyw arloesi ddefnyddio metrigau ynni o'r byd go iawn yn hytrach na rhai wedi'u modelu a bod angen iddo ystyried deiliaid tai a'u hadborth.

### Sgiliau a Hyfforddiant

Amlygodd y trafodaethau nifer o faterion, gan gynnwys yr angen am well rhaglenni hyfforddi a phrinder gweithwyr proffesiynol medrus sy'n dod i mewn i'r sector. Pryder sylweddol arall oedd y diffyg hyfforddwyr sydd ar gael, gan fod yn well gan lawer o unigolion cymwys aros yn y maes yn hytrach na gwneud swyddi hyfforddi. Un ateb arfaethedig oedd annog gweithwyr proffesiynol y diwydiant sydd wedi ymddeol i ddod yn hyfforddwyr. Ar nodyn cadarnhaol, ystyriwyd bod cael gwared ar y cap ar hyfforddiant gwyrdd a chyflwyno cyllid sgiliau hyblyg yn gamau mawr ymlaen.





### Cyllid ac Arloesi

Amlygwyd argaeledd cyllid ar gyfer adeiladau newydd fel datblygiad cadarnhaol, ynghyd â ffocws mewn dogfennau polisi ar leihau'r galw am ynni yn hytrach na dibynnu'n unig ar raddfeydd EPC neu SAP. Er bod arloesedd yn cael ei annog, mae cyllidwyr ac yswirwyr yn aml yn amharod i gefnogi technolegau newydd, a all gyfyngu ar eu defnydd. I fynd i'r afael â'r rhwystr hwn, pwysleisiodd y trafodaethau bwysigrwydd fod y grŵp yn ymgysylltu ag yswirwyr a chyllidwyr.

### Y Gadwyn Gyflenwi

Trafododd y grŵp y ffaith bod awydd i hyfforddi ac uwchsgilio darparwyr tai a bod rhwydweithiau ynni a chynhyrchwyr yn awyddus i ymgysylltu â'r diwydiant. Cafwyd trafodaethau ynghylch sut gall problemau gyda safonau fygu'r gadwyn gyflenwi, er enghraifft teimlwyd bod datblygu safonau yn digwydd yn ysbeidiol gan ei gwneud yn anodd uwchsgilio'r gadwyn gyflenwi mewn modd amzerol, yn ogystal â theimladau bod bwlch rhwng PAS 2030/35 ac arferion gorau gan ei fod yn rhy fiwrocrataidd.

Roedd rhywfaint o gysondeb ar draws y grwpiau o ran sut gall yr Hwb helpu i gefnogi'r sector. Roedd y rhain yn cynnwys rhannu gwybodaeth rhwng landlordiaid cymdeithasol preswyl/cymdeithasau tai a thenantiaid, hwyluso mwy o gydweithio yn y sector, cynnal cynhadledd flynyddol i helpu i rannu arferion gorau ac arwain meddwl strategol. Mae'r Grwpiau Cynghori'r Diwydiant wedi cymryd yr holl bwyntiau a grybwyllwyd yn y lansiad i'w hystyried mewn trafodaethau pellach wrth i'r grwpiau esblygu.

Mae gan y fforwm ar y wefan fwrdd trafod ar gyfer pob un o'r Grwpiau Cynghori'r Diwydiant fel y gall aelodau wneud sylwadau ar y pynciau hyn a'u trafod er mwyn helpu i ddatblygu ein ffordd o feddwl am sut gall yr Hwb gefnogi.



# Grwpiau Cynghori'r Diwydiant

## Mae'r Hwb hefyd yn curadu 4 Grŵp Cynghori'r Diwydiant ar:

- Y Gadwyn Gyflenwi
- Cyllid ac Arloesi
- Hyfforddiant a Sgiliau
- Polisi

Mae crynodeb o weithgarwch pob grŵp i'w weld isod, gan gynnwys aelodau pob grŵp:

### Grŵp Cynghori'r Diwydiant y Gadwyn Gyflenwi

**Ysgrifenyddiaeth gan Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru.**

Mae'r grŵp hwn yn asesu anghenion y gadwyn gyflenwi mewn perthynas â'r daith tuag at zero net. Mae'r pynciau a'r materion i'w trafod o ran y gadwyn gyflenwi ar ganlyniadau zero net yn cynnwys:

- Caffael ac ymddygiad
- Hyfforddiant a sgiliau
- Y llwybrau gorau er mwyn cyrraedd a chydymffurfio â zero net
- Ymagwedd gwneuthuriad yn gyntaf
- Argaeledd cynnyrch a deunydd
- Ôl-ffitio i zero net
- Datrysiadau grid
- Technoleg
- Ynni adnewyddadwy
- Gwrthbwyso carbon
- Manteision ychwanegol gan gynnwys bioamrywiaeth ac iechyd
- Economi gylchol
- Gwastraff
- Dulliau Adeiladu Modern, oddi ar y safle a rhagffurfio
- Taith y defnyddiwr
- Yr angen i edrych ar y mecanweithiau ehangach i gyflawni zero net, fel dylunio trefol, cynllunio gofodau, cludiant a fflyd

Mae'r grŵp wedi cael un cyfarfod a chynhaliwyd gweithdy yng nghynhadledd Hwb. Bydd yr ail gyfarfod ar 16 Gorffennaf 2024.

**Aelodau:**

- Liz Jones (Cadeirydd) – Cartrefi Cymunedol Cynon Taf
- Julian Brooks – Hwb Carbon Zero Cymru
- Malcolm Davies – Llywodraeth Cymru
- David Lorey – Cyngor Sir Ddinbych
- Jay Morgan – Cyngor Sir Gâr
- David Jaques – Cyngor Caerdydd
- Naomii Thomas – Cyngor Caerdydd
- Catrin Sneade – Cyngor Caerdydd
- Darrin Davies – Cymoedd i'r Arfordir
- Richard Mann – Cymdeithas Tai Unedig Cymru
- Helena Kirk – Tai Gogledd Cymru
- David Hayhoe/Jason Wroe – Grŵp Tai Cadwyn a Newydd
- David Lewis – ClwydAlyn
- Jade Lewis – Llywodraeth Cymru
- Llinos Williams – Pennaeth Tîm Polisi Datgarboneiddio Preswyl
- Nicole Pike – Swyddog Datgarboneiddio Preswyl
- Ryan Price – Rheolwr Perthynas Safon Ansawdd Tai Cymru
- Brian Gould – Uwch Swyddog Technegol Safonau Tai
- Peter Williams – Llywodraeth Cymru
- Ann Marie-Smale – Penseiri Powell Dobson
- Barrie Davies – Cynllunio Asbri
- Matthew Williams – McCanns
- Kassie Williams – Robert Price
- Ben Copson – Y Gymdeithas Ynni Adnewyddadwy
- Alex Hughes – MCS Certified
- Phil Mason – TrustMark
- Stuart Jones – Wates
- Dorian Payne – Castell Group
- Luke Joyner – Joyners
- Mike Mills – EOMltd
- Penny Haywood – SEWSCAP
- Simon McWhirter – Down to Earth
- Vince Hanly – Cartrefi o Bren Lleol ac arbenigwr caffael
- Peter Draper – Rounded Developments
- Robert Chapman – Ymgynghorydd cynaliadwyedd annibynnol

## Grŵp Cynghori'r Diwydiant Cyllid ac Arloesi

**Ysgrifenyddiaeth gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni**

**Diben y grŵp:**
Arwain, hysbysu a blaenoriaethu gweithgareddau sy'n ymwneud ag elfennau cyllid a chaffael cynllun gwaith Hwb Carbon Zero Cymru, yn ogystal â hysbysu'r grŵp o weithgarwch perthnasol yn y diwydiant. I ddechrau, bydd y grŵp hwn yn canolbwyntio ar gyfleoedd ariannu arloesol yn y sector tai cymdeithasol ond bydd hefyd yn cadw golwg ar weithgareddau perthnasol yn y sector rhentu preifat a pherchen-feddianwyr. Dylai ymchwil a gweithgarwch y grŵp ymestyn i ymgorffori technolegau carbon isel wrth ddylunio ac adeiladu adeiladau newydd yn ogystal ag ôl-ffitio'r stoc tai presennol.

Mae dau gyfarfod wedi'u cynnal, cyfarfod cychwynnol ym mis Rhagfyr 2023 ac yna cyfarfod ym mis Mawrth 2024 yn ogystal â gweithdy cynhadledd Hwb.

Mae'r grŵp wedi creu a chytuno ar Gylch Gorchwyl, yn ogystal â llunio tudalen yn amlinellu eu huchelgeisiau. Mae'r camau nesaf yn cynnwys amlinellu sut beth yw llwyddiant i'r grŵp a sut y gellir ei fesur a'i adrodd i gyflawni'r effaith fwyaf.

**Aelodau:**
- Graham Sumsion (Cadeirydd) – Cymdeithas Adeiladu Sir Fynwy
- Julian Brooks – Cynghrair Cartrefi Da
- Sam Rees – Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig
- Rachael Hunnisett – Sefydliad Cyllid Gwyrdd
- David Ward – Cartrefi Tirion
- Llinos Williams – Llywodraeth Cymru
- Tom Boome – Cymdeithas Tai ClwydAlyn
- Cenydd Rowlands – Banc Datblygu Cymru
- Steve Cranston – Llywodraeth Cymru
- Daniel Neasham – Future Homes Hub
- Simon Mattey – Cymdeithas Adeiladu'r Principality
- Gavin Dick – Cymdeithas Genedlaethol Landlordiaid Preswyl

## Polisi

**Ysgrifenyddiaeth gan Gynghrair Cartrefi Da**

**Aelodau:**
Nid yw'r Grŵp Cynghori'r Diwydiant Polisi wedi cael cyfarfod eto gan ei fod yn aros i Gadeiryddion o'r Grwpiau eraill gael eu penodi.

## Grŵp Cynghori'r Diwydiant Sgiliau a Hyfforddiant

**Ysgrifenyddiaeth gan TrustMark**

**Diben y grŵp:**
Amcan y Grŵp Sgiliau a Hyfforddiant yw asesu, datblygu a gweithredu strategaethau a mentrau sy'n ymwneud â datblygu sgiliau a hyfforddiant yng Nghymru yn y sectorau Atgyweirio, Cynnal a Chadw a Gwella, ac Adeiladu.

Nod y grwpiau yw gwella sgiliau, gwybodaeth a chymwyseddau busnesau, gweithwyr/aelodau, gan eu galluogi i wynebu heriau presennol ac yn y dyfodol i gyrraedd zero net yn effeithiol.

Hyd yma, cynhaliwyd un cyfarfod a gweithdy yng nghynhadledd Hwb. Mae'r ail gyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer 29 Gorffennaf 2024.

**Aelodau:**
- Matthew Rees - Cynrychiolydd Colegau Cymru, Is-Brif Bennaeth Dysgu Seiliedig ar Waith a Gweithgarwch Masnachol yng Ngholeg Penybont
- Menna Lewis – TrustMark
- Julian Brooks – Cynghrair Cartrefi Da
- Elfed Roberts – Grŵp Pobl
- Tom Boome – ClwydAlyn
- Malcolm Davies – Llywodraeth Cymru
- Catherine Bullough – Ffederasiwn Adeiladu Tai
- Rhodri Williams – Ffederasiwn Adeiladu Tai
- Oonagh Gavin – Cyngor Bwrdeistref Castell-nedd Port Talbot
- Lisa Thomas – Colegau Cymru
- Tracey Jones – Tîm Sgiliau Llywodraeth Cymru
- Gareth Williams – Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu
- Bethan Proctor – CHC Cymru
- Matthew Dicks – CIH Cymru
- Stuart Rattray – Cymdeithas Gwasanaethau Peirianneg Adeiladu
- Wyn Pritchard – Ymgynghorydd arweiniol mewn sgiliau zero net
- Alex Eslor – Cymwysterau Cymru
- Sian Lloyd Roberts – Rheolwr Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, Rhanbarth y Gogledd
- David Price – Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, Rhanbarth y Canolbarth
- Jane Lewis – Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, Rhanbarth y Gorllewin
- Richard Tobutt – Rheolwr Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, Caerdydd
- Sophie Douglas – Prifysgolion Cymru, cymdeithas sefydliadau addysg uwch Cymru
- Andrew Eldred – Cymdeithas Contractwyr Trydanol

# Cwrs Hyfforddi

## Rhaglen hyfforddi gynhwysfawr ar gyfer arolygwyr safleoedd a rheolwyr prosiectau cymdeithasau tai

Yn y deunaw mis cyntaf, un o'r prif amcanion oedd datblygu cwrs hyfforddi cadarn wedi'i deilwra ar gyfer Arolygwyr Safleoedd a Rheolwyr Prosiectau Cymdeithasau Tai. Nod y fenter hon yw rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol iddynt er mwyn cyrraedd safonau zero net ar gyfer adeiladau newydd ac ôl-ffitio.

Sefydlwyd gweithgor pwrpasol, yn cynnwys arbenigwyr o'r diwydiant a chynrychiolwyr y grŵp llywio i sicrhau bod cynnwys y cwrs yn gynhwysfawr ac yn berthnasol.

### Amcan

Ein prif nod yw cynnig dealltwriaeth drylwyr i Arolygwyr Safleoedd a Rheolwyr Prosiectau o gymhwyso'r Safonau Zero Net yn ymarferol. Bydd y cwrs hefyd yn amlygu problemau cyffredin a strategaethau ar gyfer eu hosgoi, gan sicrhau bod cartrefi yn bodloni'r safonau uchelgeisiol hyn yn ymarferol.

### Strwythur y Cwrs

Mae'r rhaglen hyfforddi wedi'i rhannu'n naw modiwl, a phob un yn canolbwyntio ar agweddau hanfodol tai Zero Net:

- Modiwl 1 - Cefndir Polisïau a Rheoliadau Tai Cymdeithasol Cymru
- Modiwl 2 - Modiwl Sylfaen
- Modiwl 3 - PAS 2035: Safonau Ôl-ffitio
- Modiwl 4 - Monitro, Adrodd a Lleihau Allyriadau Carbon
- Modiwl 5 - Datrysiadau Ynni a Systemau Ynni
- Modiwl 6 - Pwysigrwydd sicrhau ansawdd
- Modiwl 7 - Ymagwedd Gwneuthuriad ac Adeiladu
- Modiwl 8 - Awyru
- Modiwl 9 - Gwerthuso Perfformiad Adeiladau (BPE) ar Waith

### Dull Dysgu

Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio i rymuso Arolygwyr Safleoedd a Rheolwyr Prosiectau gyda chyfuniad o wybodaeth ddamcaniaethol a phrofiad ymarferol, gan bwysleisio dysgu drwy brofiad ymarferol. Bydd cyfranogwyr yn datblygu dealltwriaeth gynhwysfawr o arferion gorau wrth wireddu prosiectau preswyl zero net ac ynni isel.

### Ardystio

Ar ôl cwblhau'r cwrs, bydd y cyfranogwyr yn cael tystysgrif yn manylu ar y modiwlau y maent wedi'u pasio'n llwyddiannus, gan gydnabod eu harbenigedd mewn datrysiadau tai cynaliadwy.

### Fformat y Cwrs

Bydd y modiwlau hyfforddi ar gael drwy blatfform e-ddysgu ar-lein a gynhelir gan Hwb Carbon Zero Cymru. Bydd cyfranogwyr yn cael cyfrifon e-ddysgu unigol i fonitro eu cynnydd a chael mynediad at y modiwlau.

### Arbenigedd o'r Diwydiant

Er mwyn sicrhau bod y cwrs yn cael ei gyflwyno gan arbenigwyr yn y diwydiant, cynhaliwyd proses gaffael, gan wahodd 28 o sefydliadau i dendro am fodiwlau penodol. Rydym yn falch ein bod wedi contractio nifer o arweinwyr blaenllaw yn y diwydiant i gyflwyno'r hyfforddiant.

### Lansio

Bydd y cwrs yn cael ei lansio ym mis Medi 2024.

Bydd y cwrs hwn am ddim (ac eithrio ffi weinyddol fechan) i reolwyr safleoedd a rheolwyr prosiectau cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol yng Nghymru am ddwy flynedd.

Mae'r rhaglen hon yn gam hanfodol tuag at rymuso gweithwyr tai proffesiynol i arwain y newid tuag at ddatrysiadau tai mwy cynaliadwy, gan sicrhau bod safonau zero net nid yn unig yn cael eu deall ond eu bod yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Gallai cyrsiau yn y dyfodol gynnwys modiwl ar ymgysylltu â thenantiaid.



# Digwyddiadau ac Ymgysylltiad Ehangach

## Mae staff tîm Hwb wedi mynychu dros 20 o ddigwyddiadau yn y flwyddyn gyntaf, yn cynnwys:

- Cymuned Ymarfer y Rhaglen Tai Arloesol
- WoodBuild 23
- Arweinwyr y Diwydiant Tai
- Fforwm Datblygwyr Awdurdodau Lleol
- Datgarboneiddio Tai y Grŵp Gweithredu Datgarboneiddio
- Cymunedau Ymarfer Datgarboneiddio Tai
- Diwrnod Datblygwyr Awdurdodau Lleol
- Y Rhaglen Ôl-ffitio Optimeiddiedig ar gyfer Landlordiaid
- Gweithdy Trywydd Zero Net Llywodraeth Cymru 7/11/23
- Fforwm Hyfforddiant a Sgiliau
- Hwb Ôl-ffitio Cenedlaethol, Gweithdai Cyflawni Ôl-ffitio a Datgarboneiddio Tai Cymru
- Cyfarfod SEA

Ar 24 Ebrill 2024 yn y Pafiliwn yn Llandrindod lansiwyd Hwb Carbon Zero Cymru.

Mynychodd 110 o gynrychiolwyr gyda'r tîm Hwb Carbon Zero, a chynrychiolwyr o grŵp llywio Hwb.

Cadeiriwyd y diwrnod gan Elfed Roberts o Grŵp Tai Pobl sydd hefyd yn aelod o grŵp llywio Hwb.

Dechreuodd y digwyddiad gydag anerchiad fideo gan Julie James AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio.

Yn dilyn hyn cafwyd nifer o gyflwyniadau. Roedd y cyntaf yn cyflwyno'r Hwb ac yna cafwyd tair astudiaeth achos o'r Rhaglen Tai Arloesol a'r Rhaglen Ôl-ffitio Optimeiddiedig.

Ar ôl cinio, cyflwynwyd Grwpiau Cynghori'r Diwydiant i'r cynrychiolwyr gan y cadeiryddion/arweinwyr priodol.

Yna, cynhaliwyd pedair sesiwn grŵp yn seiliedig ar themâu'r pedwar Grŵp Cynghori'r Diwydiant mae'r Hwb wedi'u creu.

Daeth y digwyddiad i ben tua 4pm.

Mae'r adborth gan y cynrychiolwyr wedi bod yn ardderchog ac rydym am ddiolch i bawb a helpodd i greu digwyddiad buddiol a boddhaol, yn enwedig Elfed Roberts, Julie James AS, Steve Fanning, Tom Boome, Graham Sumsion a Cat Griffiths Williams a thîm Hwb.

**Cyfryngau Cymdeithasol**

Mae tudalen Hwb wedi cael ei chreu ar LinkedIn
**www.linkedin.com/company/zero-carbon-hwb/**
sydd â 436 (6 Mehefin 2023 - 5 Mehefin 2024) o ddilynwyr.

**Argraffiadau:** 402
**Gwyliadau unigryw:** 242
**Cyfradd ymgysylltu:** 5,027

**Dadansoddeg y Wefan**

**Lansio'r wefan:** 7 Chwefror 2024 – 31 Mai 2024
**Ymweliadau â'r wefan:** 2,590
**Hyd cyfartalog ymweliad:** 3.00 munud

**Ymgysylltiad â Hybiau Ôl-ffitio**

Cenedlaethol eraill yng ngwledydd Prydain
Amgylchedd Adeiledig – Trawsnewid Doethach (Yr Alban)
Hwb Cartrefi'r Dyfodol

**Ymgysylltiad â mentrau Llywodraeth Cymru**

Rhaglen Ôl-ffitio Optimeiddiedig
Cymuned Ymarfer y Rhaglen Tai
Arloesol Cyflawni Zero Net



# Rhagolwg o'r ddwy flynedd nesaf

## Datblygu cynllun busnes ar gyfer Hwb hunangynhaliol ar ôl diwedd y prosiect cyfredol a ariennir

- Datblygu matrics sgiliau sy'n nodi'r bylchau yn y ddarpariaeth
- Adolygu cwrs hyfforddi Hwb a'i ddiweddaru lle bo angen
- Grwpiau Cynghori'r Diwydiant – pennu cyfres o ofynion ar gyfer pob un
- Datblygu astudiaethau achos a chyfleusterau chwilio ar-lein ymhellach
- Cynyddu negeseuon cyfryngau cymdeithasol ar arferion gorau
- Datblygu rhwydweithiau parhaus ar draws y sector
- Cynnal digwyddiadau arferion gorau pellach
- Cynnal dwy gynhadledd flynyddol arall

## Cynllun digwyddiadau:

**Blwyddyn 2 (Mehefin 2024 – Mai 2025)**

- Lansio cwrs hyfforddi
- Digwyddiad ar y cyd â TPAS am ymgysylltu â thenantiaid
- Cynhadledd 2025

**Blwyddyn 3**

- Cynhadledd flynyddol
- Digwyddiadau eraill i'w cyhoeddi

